OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 638 (Cy. 71)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992 ("Gorchymyn 1992") yn rhagnodi amodau y mae'n rhaid i bersonau sydd â nam meddyliol difrifol a gwahanol bersonau o ddisgrifiadau eraill eu cyflawni er mwyn cael eu diystyried at ddibenion disgowntiau'r dreth gyngor y mae adran 11 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") yn rhagnodi ar eu cyfer.

Er mwyn i berson sydd â nam meddyliol difrifol gael ei ddiystyried at ddibenion disgowntiau'r dreth gyngor mae Gorchymyn 1992 yn rhagnodi bod yn rhaid iddo fod yn derbyn budd-dal cymwys. Mae erthygl 2(a) a (b) yn diwygio amodau Gorchymyn 1992 fel bod y rhan o'r taliad annibyniaeth bersonol sydd ar gyfer byw bob dydd yn cael ei chynnwys o fewn y diffiniad o fudd-dal cymwys.

Mae erthygl 2(c) yn diwygio ymhellach Orchymyn 1992 er mwyn cynnwys credyd cynhwysol, sy'n cynnwys swm i'w dalu i berson oherwydd gallu cyfyngedig y person hwnnw i weithio neu allu cyfyngedig i wneud gweithgareddau gwaith neu weithgareddau sy'n ymwneud â gwaith, yn y diffiniad o fudd-dal cymwys.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, nid ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar y costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 638 (Cy. 71)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013

*Gwnaed* *18 Mawrth 2013*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *18 Mawrth 2013*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 8 Ebrill 2013.

(3) Mae erthygl 2(c) yn dod i rym ar 29 Ebrill 2013.

(4) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1992 p.14.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

**Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992**

**2.** Mae paragraff (2) o erthygl 3 o Orchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (k)(**2**) yn lle "." rhodder ";";

(b) ar ôl is-baragraff (k) mewnosoder—

"(l) the standard or enhanced rate of the daily living component of personal independence payment under section 78(3) of the Welfare Reform Act 2012(**3**);";

(c) ar ôl is-baragraff (l) mewnosoder—

"(m) universal credit under Part 1 of the Welfare Reform Act 2012 the calculation of which includes an amount under regulation 27(1) of the Universal Credit Regulations 2013(**4**) in respect of the fact that the person in question has limited capability for work or limited capability for work and work-related activity or would include such an amount but for regulation 27(4) or 29(4) of those Regulations.".

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

18 Mawrth 2013

(**1**) O.S. 1992/548. Diwygiwyd paragraff (2) gan O.S. 1994/543; O.S. 1995/619, O.S. 1996/636 ac O.S. 1997/656.
(**2**) Mewnosodwyd paragraff (k) gan O.S. 1996/636.
(**3**) 2012 p.5.
(**4**) O.S. 2013/376.